

## Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa i'r Daith (Peniel, Saron a Nantglyn) yn Nantglyn am 2.00 y prynhawn pryd y bydd y Parch. John Robinson yn pregethu.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 y bore.
- Sul canlynol – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun ym Mheniel am 10.00 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.  
➤ Bydd Rhodri hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00 y prynhawn.

## Ffurflenni Diogelu Data

Gair i'ch atgoffa i ddychwelyd eich ffurflen i ysgrifennydd eich capel erbyn **Ebrill 21ain** (Sul y Pasg), os gwelwch yn dda. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, dim ond enwau y rhai fydd wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i ni gyfeirio atynt fydd yn ymddangos yn Llais Bro Aled ac o dan newyddion yr eglwysi yn Y Gadlas o hyn allan. Bydd y drefn newydd o rannu gwybodaeth yn dod i rym ar Fai 1af eleni.

## Bws Mini i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn yn Wrecsam, dydd Mercher, Mai 1af. Os oes gennych ddi-ddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261, os gwelwch yn dda. Y cyntaf i'r felin....!

## I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 30<sup>ain</sup> am 7.00 yr hwyr yng nghwmni Llinos Roberts (Cymorth Cristnogol). Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel y Groes, Wrecsam dydd Mercher, Mai 1<sup>af</sup>. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **MIRI MAI (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Mai 17<sup>eg</sup> – 19<sup>eg</sup>. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan â phosibl, neu gallwch archebu lle ar-lein: [www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg](http://www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg).

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (24<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.



## Llais Bro Aled

Ebrill 14<sup>eg</sup> a 21<sup>ain</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:  
[@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw, gydag wythnos y Pasg o'n blaenau. A chroeso arbennig iawn i'n cyfeillion o Synod Mizoram, India fydd yn moli gyda ni yn Llansannan heno. Wrth gwrs, nid dyma'r tro cyntaf i ni gael cwmni'r côr, ond braf yw cael parhau'r cysylltiad hanesyddol rhwng Cymru a Mizoram wrth groesawu to newydd o'r côr i'n hardal. Ac yn naturiol, i ni yma ym Mro Aled mae'r cysylltiad gymaint â hynny yn fwy clos oherwydd bod ein cyn-weinidog (Lawma yn ôl ei enw Mizo!) yn frodor o Mizoram. Ar ben hyn, tad Aneurin, y Parch O. W. Owen oedd sylfaenydd y Gymdeithas Ieuencid Gristnogol (KTP) ym Mizoram, ac aelodau'r KTP sy'n llenwi rhengau'r côr heddiw. Nid yn unig cawn gyfle i ddiolch i Dduw am ei waith yng Nghymru ac yn Asia, ond gallwn ychwanegu'r ochr arall i'r lwydd i'n diolch hefyd, gan y bydd y Parch. John Robinson yn pregethu yn ein hoedfa. Yn wreiddiol o dalaith Tennessee, U.D.A., mae John yn wyneb cyfarwydd yn ein capeli ym Mro Aled, ac yntau wedi bod yn genhadwr ac yn gyfarwyddwr cenhadol yng Nghymru ers yn agos i ugain mlynedd bellach. Yn ieithydd medrus, edrychwn ymlaen at gael ei glywed yn agor Gair Duw gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd cenhadu i'r ffydd Gristnogol.

Hyfrydwch yw gallu canmol yr Arglwydd gyda'n brodyr a'n chwiorydd o bedwar ban y byd a ninnau ar drothwy'r Pasg. Oherwydd wrth i ni feddwl am yr hyn ddigwyddodd i'r Arglwydd Iesu ar ddiwedd ei weinidogaeth ddaearol, cawn gyfle i oedi a myfyrio ar fawredd cynllun achubol Duw. Daeth Crist i'r byd i achub pechaduriaid – ac nid rhai wedi eu cyfyngu i rai ardaloedd daeryddol yn unig! Y Bugail Da ei hun ddywedodd wrth ei wrandawyr Iddewig: 'Y mae gennyf ddefaid eraill hefyd, nad ydynt yn perthyn i'r gorlan hon. Rhaid imi ddod â'r rheini i mewn, ac fe wrandawant ar fy llais. Yna bydd un praidd ac un bugail.' (Ioan 10:16) Trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu, cyflawnwyd bwriad tragwyddol Duw i achub a galw pobl o bob cenedl, llwyth, ac iaith i fod yn bobl iddo'i hun – yn un teulu gydag Iesu Grist yn gonglfaen. (Effesiaid 2:19-20)

Wrth i ni ddechrau'r wythnos yn rhoi clod i Dduw am rym byd eang y newyddion da, gofynnwn am arweiniad ei Ysbryd trwy weddill yr wythnos hefyd i lawenhau yng nghanlyniadau bendigedig yr Atgyfodiad. 'Am fod fy Iesu'n fyw, byw hefyd fydd ei saint!'

*Rhodri*

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

#### Oedfa Arbennig i'r Fro

ying Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00 yr hwyr  
ying nghwmni

#### y Parch. John Robinson a Chôr Synod Mizoram

Croeso cynnes i bawb.

Mercher – 17<sup>eg</sup>

- **Word Alive** – Gŵyl Gristnogol ym Mhrestatyn. Ar y nos Fercher, bydd Graham Daniels (Cyfarwyddwr Christians in Sport) yn pregethu mewn oedfa o fawl a gynhelir mewn pabell fawr ar safle Pontins Prestatyn Sands, LL19 7LA. Awgrymwn i bawb sy'n dymuno dod i gyfarfod ym maes parcio Pontins am 6.00 yr hwyr. Bydd yr oedfa'n cychwyn am 6.30 yr hwyr. Os oes unrhyw un yn dymuno cael lifft, neu bod modd i chi roi lifft i rywun arall, plis cysylltwch â Mair. Mae mwy o wybodaeth i'w gael am weithgareddau'r wythnos (13<sup>eg</sup> – 18<sup>fed</sup>) ar y wefan: [wordaliveevent.org](http://wordaliveevent.org)

Gwener – 19<sup>eg</sup>

- **Oedfa Bore'r Grogolith i'r Fro** – Oedfa gymun yng Nghapel Saron am 10.30 y bore.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 yr hwyr. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llun – Iau  
22<sup>ain</sup> – 25<sup>ain</sup>

- **Llanw** – Gŵyl Gristnogol yn Ninbych y Pysgod. Cynhelir oedfa bob bore a phob nos yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac fe fydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau safle gwyliau Kiln Park yn ystod y dydd, mynychu seminarau neu i fynd am dro i ymweld â llwybrau a thraethau prydferth Sir Benfro. Y prif siaradwr bore Mawrth, Mercher a Iau fydd y Parch. Alun Tudur, Caerdydd, a bydd Nia Williams, John Derek Rees, Rosa Hunt a Steffan Morris yn arwain oedfaon gyda'r hwyr. Wedi oedfa'r nos bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu dros baned o de. Ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) am fwy o fanylion.

Sul canlynol –  
28<sup>ain</sup>

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 yr hwyr. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

## Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llansannan am 10.00 y bore a bydd Rhodri yn arwain oedfa am 11.00 y bore gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Mawrth – 16<sup>eg</sup>

- Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30-3.30 y prynhawn yng nghwmni Mrs Mair Beech Williams.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

- Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 y bore gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 y bore a bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00 y bore.

Sul canlynol – 28<sup>ain</sup>

- Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 y bore a chynhelir Cyfarfod Gweddi yno am 11.00 y bore. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant. Bydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15 yr hwyr.
- Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn mynd i gynnal gwasanaeth yn Yr Hen Ddeondy am 10.30 y bore a bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 11.00 y bore.

## Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

- Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 y bore a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 y bore a bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 11.00 y bore.

Gwener – 19<sup>eg</sup>

- Cynhelir Oedfa'r Grogolith yng Nghefn Berain am 7.00 yr hwyr gyda'r Parch. Eirlys Gruffydd Evans yn pregethu.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30 y bore a bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.45 y bore.
- Bydd Rhodri yn arwain Oedfa Deuluol ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 11.00 y bore. Ar ddechrau'r oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

Sul canlynol – 28<sup>ain</sup>

- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 11.00 y bore.
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.